Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth

Mid Wales Corporate Joint Committee

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CANOLBARTH CYMRU**

**Dydd Llun, 29 Ionawr 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
| AWDUR: | Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael – Ceredigion |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. I ystyried ac i gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**2. Penderfyniad(au) a Geisir**

2.1. I gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**3. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

3.1 Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno.

3.1. Mae trafodion ariannol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 wedi eu crynhoi yn y Ffurflen Flynyddol, sydd wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

3.2. Mae Archwilio Cymru wedi archwilio y Ffurflen Flynyddol ac mae eu adroddiad wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r tystysgrif a'u barn archwiliad yn datgan – "Ein bwriad yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac nid oes unrhyw faterion o ran y farn yr ydym am dynnu eich sylw ati."

## 4. Argymhellion

4.1. Fod y Bwrdd yn cymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

## 5. Goblygiadau Cyfreithiol

5.1. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

## 6. Goblygiadau Adnoddau Dynol

6.1. Does dim goblygiadau AD.

## 7. Goblygiadau Ariannol

7.1. Ddim yn briodol

## 8. Atodiadau

- Atodiad 1: Tystysgrif a barn Archwilio Cymru
- Atodiad 2: Ffurflen flynyddol Cyd-Bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023